**LC1159**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** | **LEGISLATION COMMITTEE REPORT** |

## Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i awdurdodau bwyd adennill cyfraniad tuag at gostau archwiliadau hylendid yng nghyswllt pysgod a chynhyrchion pysgodfeydd a gynhelir yn unol â Rheoliad 853/2004 yr UE.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd bod y pwyntiau a ganlyn yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae'r diffiniad o "awdurdod bwyd" yn rheoliad 2(1) fel y'i nodir yn y testun Saesneg wedi'i ddrafftio drwy gyfeirio at "sub-section 1A of section 5 of the Food Safety Act 1990". Mae'r testun Cymraeg yn defnyddio'r geiriau " adran 1A o adran 5…" sydd, o'i gyfieithu, yn golygu "section1A of section 5…". [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)].

Mae Rheoliadau 12 yn nodi'r darpariaethau sy'n gysylltiedig â chyfrifo ac ad-dalu taliadau. Mae Rheoliad 12(3)(c) yn nodi'r wybodaeth i'w chynnwys mewn ffurflen i'r awdurdod bwyd. Mae testun Saesneg Rheoliad 12(3)(c)(iii) yn awgrymu y bydd y ffurflen yn cynnwys ffigwr y bydd y pwysau a gyfrifir o dan reoliad 12(3)(c)(ii) yn cael ei dynnu oddi wrtho; fodd bynnag, mae testun Cymraeg

rheoliad 12(3)(c)(iii) yn awgrymu mai cyfanswm pwysau'r llwyth yw’r ffigwr hwn sy'n llai na'r pwysau a gyfrifir o dan dan reoliad 12(3)(c)(ii). [Rheol Sefydlog 11.7.9v.0 a (vi)]. Mae Rheoliad 23 yn cynnwys darpariaethau tebyg ond ymddengys bod geiriad testun Cymraeg rheoliad 23(3)(c)(iii) yn adlewyrchu diben y rheoliadau hyn yn gywir ac awgrymir y dylid diwygio rheoliad 12(3)(c)(iii) i gyd-fynd â'r geiriad a ddefnyddir yn rheoliad 23(3)(c)(iii).

Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau yn nodi'r diffiniadau o Ddeddfwriaeth Gymunedol y mae'r Rheoliadau'n cyfeirio ati. Mae'r diffiniad o "Reoliad 853/2004" fel y nodir yn y testun Saesneg yn cyfeirio at "Regulation C and Regulation E"; mae'r testun Cymraeg fodd bynnag yn cyfeirio at "Reoliad C a Rheoliad D" [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)]. Mae modd cywiro'r mân gamgymeriadau drafftio a'r mân anghysonderau hyn drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae'r Rheoliadau yn cyfeirio'n aml at "factory vessel" neu "vessel". Y cyfieithiad a ddefnyddir yw "llestr ffatri" a "llestr" a all, ar yr olwg gyntaf, ymddangos yn ddieithr ond sydd, er hynny, yn gyfieithiadau cywir a gaiff eu hystyried yn dderbyniol.

Awgrymwyd wrth y cyfreithiwr drafftio y dylid, wrth gyhoeddi'r Rheoliadau, gynnwys troednodiadau a fyddai o gymorth i'r darllenydd. Soniwyd wrth y cyfreithwyr drafftio hefyd am rai pwyntiau fformadu y gellid delio â nhw wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 1 Tachwedd 2005